

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	28 Ebrill 2025	
Swyddog Arweiniol	Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael	
Pwnc	Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025-26	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno i Aelodau y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys arfaethedig ar gyfer y cyfnod Ebrill 2025 – Mawrth 2026.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (y Strategaeth) yn dangos sut y bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn rheoli ei fenthyciadau (benthyciadau o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus) a'i fuddsoddiadau (adneuon arian parod mewn banciau yn bennaf) ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac yn gosod y polisiau y bydd swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn gweithredu o'u mewn.

ARSYLWADAU

- 3 Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i ystyried o'r blaen gan bwyllgorau eraill.

ARGYMHELLION

- 4 Gofynnir i'r Aelodau:

i) Gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26.

CEFNDIR

- 5 Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli'r Trysorlys ("Cod TM CIPFA") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Strategaeth a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol.
- 6 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau craffu effeithiol ar reolaeth strategaeth a pherfformiad y trysorlys. Yn seiliedig ar ei ganfyddiadau, bydd y Pwyllgor Archwilio yn gwneud argymhellion perthnasol i'r Awdurdod.

GWYBODAETH

- 7 Mae'r Strategaeth, a'r Dangosyddion Darbodus cysylltiedig, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ac yn rhoi trosolwg o ddull yr Awdurdod o fenthycu i ariannu'r cynlluniau gwariant cyfalaf. Mae'r Strategaeth hefyd yn ymgorffori'r dull o reoli buddsoddiadau, er y dylai Aelodau nodi bod hyn yn ymgorffori rheoli arian parod sydd dros ben yn y tymor byr yn unig.
- 8 Mae Rheoli'r Trysorlys yn golygu gofalu am arian parod yr Awdurdod, sy'n rhan hanfodol o waith yr Awdurdod, gan fod disgwyl i oddeutu £60m fynd trwy gyfrif banc yr Awdurdod yn ystod 2025/26.
- 9 Yn ystod y flwyddyn, mae gan yr Awdurdod lefelau amrywiol o arian parod ar gael i'w fuddsoddi, yn y tymor byr, yn amrywio o £1m - £9m, yn 2024/25. O ganlyniad, mae angen iddo sicrhau bod y gyfradd enillion orau bosibl yn cael ei chyflawni heb beryglu'r arian yn ddiangen. Mae risg yn cael ei lleihau trwy arallgyfeirio, sy'n golygu bod arian yr Awdurdod yn cael ei fuddsoddi gyda nifer o sefydliadau ariannol.
- 10 Wrth fuddsoddi, bydd yr Awdurdod yn cadw at yr egwyddorion canlynol. Mae trefn y tair egwyddor hyn yn bwysig, gyda Diogelwch yn brif flaenoriaeth.
 - Diogelwch: Cadw arian yn ddiogel
 - Hylifedd: Sicrhau bod arian ar gael pan fydd ei angen
 - Arenillion: Sicrhau cyfradd enillion weddus
- 11 Bydd yr Awdurdod yn parhau i fenthycu i ariannu gwariant cyfalaf, gan sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gefnogi ei raglen gyfalaf. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, mae'r Awdurdod yn amcangyfrif y bydd yn benthycu £15.6 miliwn. Bydd y benthycu hwn nid yn unig yn ariannu gwariant cyfalaf newydd ond hefyd yn ailariannu benthyciadau presennol, gan gynnal sefydlogrwydd ariannol a hyblygrwydd. Nod y strategaeth fenthycu yw taro cydbwysedd rhwng sicrhau costau llog isel a sicrhau sicrwydd dros y cyfnod y mae angen arian ar ei gyfer.
- 12 Gall yr Awdurdod hefyd ystyried benthycu symiau ychwanegol i ragariannu gofynion blyneddod i ddod, ar yr amod nad yw hyn yn fwy na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthycu, sef £36.616 miliwn. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd ag amcan yr Awdurdod i reoli risgiau ariannol yn ddoeth wrth gefnogi ei anghenion cyfalaf a gweithredol hirdymor.

- 13 Cefnogir yr Awdurdod drwy ddefnyddio ymgynghorwyr proffesiynol, Arlingclose, sy'n darparu cyngor ac arweiniad mewn perthynas â gweithgareddau rheoli'r trysorlys.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod drwy sicrhau bod prynu asedau i gefnogi darpariaeth gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf wedi'i chynllunio i sicrhau bod buddsoddiad digonol mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol.
Cyllideb	Mae'r strategaethau'n cysylltu â'r gwaith o bennu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf sy'n ystyried fforddiadwyedd tymor hwy.
Cyfreithiol	Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi yn yr atodiadau i'r adroddiad.
Staffio	Dim
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg	Dim
Risgiau	Mae'r adroddiadau'n nodi'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau benthyca a buddsoddi.